# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 15.04.08

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr J.R.Jones (Cadeirydd); Tomos Evans; Dewi Llewelyn (ar gyfer cais Webber Leisure)

**Hefyd yn bresennol:** Gareth W. Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriad:** Cynghorydd Dewi Llewelyn (ar gyfer cais Y Faenol)

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ar gyfer cais Ystad y Faenol:** Arolygwr Garry Jones (Ymgeisydd); Mark Wood (G.E.D. Ystad Y Faenol)

**Ar gyfer cais Webber Leisure:** Mr Mark Webber (Ymgeisydd); Mr Arthur Webber;
**Yn cynrychioli'r Ymgeisydd:** Richard Arnott a Stephen Latter (cwmni Minotts)

**Gwrthwynebwyr:** Mr Neil Clowes a Mr Kenneth Corbett (cwmni Corbetts); Ms Jane Walker (cyfreithiwr, cwmni Trethowans ar ran Corbetts)

**Aelodau Lleol:** (cais Webber Leisure) Y Cynghorwyr Roy Owen; Gerald Parry

## 1. CAIS AM ADOLYGU TRWYDDED EIDDO YSTAD Y FAENOL, BANGOR

(Er nad oedd ond dau o'r tri aelod o'r Is-bwyllgor yn bresennol, cytunodd pawb i fynd ymlaen i drafod y cais oherwydd na chyflwynwyd yr un gwrthwynebiad)

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion cais gan Heddlu Gogledd Cymru i adolygu Trwydded Eiddo Ystad Y Faenol. Daw'r cais o ganlyniad i broblemau ddaeth i'r amlwg yn ystod digwyddiadau Gwyl Y Faenol y llynedd. Geilw'r Heddlu am gynllun trefnu trafnidiaeth wedi ei gytuno gyda Uned Priffyrdd Gwynedd er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd o gwmpas y safle, a hyn i fod yn derfynol ddeufis cyn unrhyw ddigwyddiad.

Amod arall argymhellir gan yr Heddlu yw bod cais yn cael ei gyflwyno i swyddogion Yr Heddlu fod ar ddyletswydd yn ystod unrhyw ddigwyddiad er mwyn gwarchod diogelwch y cyhoedd. Cyfyd hyn o ganlyniad i ddigwyddiadau yn ystod Gwyl Y Faenol y llynedd pan fu rhaid galw ar swyddogion yr heddlu i ddelio â nifer o achosion o drosedd ac anrhefn ar ambell i noson o'r Wyl. O ganlyniad bu sawl ardal cyfagos heb bresenoldeb yr heddlu i gadw'r heddwch. Yn y cais mae'r Heddlu yn rhestru rhesymau manwl dros yr agymhellion.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i) Rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ymhelaethu ar ei gais.

ii) Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii) Rhoddwyd cyfle i'r Goruchwyliwr ychwanegu at y sylwadau

iv) Rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd grynhoi ei achos.

Cadarnhaodd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig ei fod yn hollol gytun â'r amodau a argymhellir gan yr Heddlu, sy'n deillio o gyfarfodydd a gynhelir yn rheolaidd rhwng y Gwasanaethau priodol a rheolwyr Ystad Y Faenol.

**PENDERFYNWYD ychwanegu'r amodau canlynol at Drwydded Ystad Y Faenol ar gyfer pob Digwyddiad Allanol:**

**a) Darparu Cynllun Rheoli Trafnidiaeth mewn cydweithrediad â Priffyrdd Gwynedd (wedi ei gytuno â'r cwmniau perthnasol) er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd ar y ffyrdd oddi mewn yr Ystad ac hefyd y ffyrdd yn arwain i mewn ac allan o'r Ystad.**

**b) Y Cynllun Rheoli Trafnidiaeth i fod yn gyflawn ac wedi ei gytuno arno ddeufis cyn unrhyw ddigwyddiad**

**c) Cyflwyno cais i Heddlu Gogledd Cymru am bresenoldeb yr Heddlu mewn Digwyddiadau Allanol ar gyfer mwy na 500 o bobl er mwyn i) canfod ac atal trosedd; ii) canfod ac atal achosion o darfu ar heddwch; iii) gweithredu a chydlynu cynlluniau cyfwng. Bydd Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiadau yn penderfynu ar berthnasedd y materion hynny ac ar yr angen am ddarpariaeth ar ôl rhoi sylw digonol i sylwadau aelodau'r Grŵp.**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd yr anfonir llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn cadarnhau dyfarniad yr Is-bwyllgor.

## 2. CAIS AM DRWYDDED EIDDO DAN Y DDEDDF GAMBLO 2003 – WEBBER LEISURE 2 STRYD Y LLYN, CAERNARFON

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais gan Webber Leisure am Drwydded Eiddo dan y Ddeddf Gamblo 2003 i ganiatau betio (oddi ar y trac) yn 2, Stryd Llyn, Caernarfon.

Cafwyd datganiad gan gyfreithiwr ar ran cwmni Webber Leisure, sy'n gwmni preifat lleol, ar y paratoadau a wnaethpwyd ar gyfer y ganolfan betio arfaethedig; sut y glynwyd at bolisiau'r Ddeddf Gamblo a chanllawiau'r Comisiwn Gamblo a'r dymuniad i redeg busnes fydd yn cynnig gwasanaeth i drigolion lleol ond heb fod yn atyniad i blant ac oedolion bregus, ac mae'r cwmni'n awyddus i gydweithio gyda'r asiantaethau perthnasol er mwyn sicrhau hyn. Adroddwyd y byddai'r cwmni yn barod i drafod argymhellion ynglyn â'r oriau agor, ac yn fodlon cytuno â'r un telerau â chwmni Corbetts yn y cyswllt hwn.

Mewn ymateb i gwestiynau gan gyfreithiwr ar ran y gwrthwynebwyr, cyflwynwyd y sylwadau canlynol:

- Ni fwriedir caniatau peiriannau o gwbl rhwng y fynedfa a'r ystafell gemau
- Bydd y betio'n cael ei wneud drwy beiriannau yn hytrach na dros gownter
- Wyth o beiriannau gemau a ganiateir, gyda mwyafrif o bedwar yn rhai B2
- £100 yw'r bet fwyaf ellir ei roi ar y tro, ac ni dderbynnir papurau £50

**PENDERFYNWYD caniatau Trwydded Eiddo i ganiatau Betio (oddi ar y trac) i 2 Stryd Llyn, Caernarfon yn unol â'r Ddeddf Gamblo 2005 gyda'r amodau canlynol:**

**a) Oriau agor Dydd Llun hyd at Dydd Sadwrn: 09.00 – 21.30; Dydd Sul: 11.00 – 18.00**

**b) Diddymu trwydded presennol y cyntedd**

**c) Darparu toilet ar gyfer yr anabl**

**d) Bydd o leiaf dau aelod o staff yn bresennol yn yr adran betio ar unrhyw adeg**

**e) Gweithredu'n llwyr oddi fewn i'r polisi a gyflwynwyd gan gwmni Webber Leisure fel rhan o'r cais.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.10am a daeth i ben am 12.30pm